O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 428 (Cy. 70)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A48 a Thraffordd yr M4 (Cyffordd a Chyfnewidfa Earlswood, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Wedi ei wneud	*17 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*27 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (A48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd gael ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 a Thraffordd yr M4 (Cyffordd a Chyfnewidfa Earlswood, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 27 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr